CYFARFOD ARBENNIG O BWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL Y PRIF SWYDDOGION

YSTAFELL GYFARFOD MATH, PENCADLYS Y GWASANAETH

13 MAWRTH 2014 AM 09:00 AWR

Presennol:

Y Cynghorydd R Llewellyn (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Evans
Y Cynghorydd P James
Y Cynghorydd A Lewis
Y Cynghorydd G Thomas
Mr Dave Daycock, Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod
Mr Mark Miles, Pennaeth Adnoddau Dynol
Mr Steven Flather, Pennaeth Cyllid
Mr Stephen McNamara, Veale Wasbrough Vizards

Presennol ar gyfer eitem 6 ar yr Agenda yn unig

Mr Kevin Jones, Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a'r Gyfundrefn

Presennol ar gyfer rhan o eitem 6 ar yr Agenda yn unig

Mr Richard Smith, Prif Swyddog Tân (PST)

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

   Dim.

2. **Datganiad gan Aelodau o unrhyw Fuddiannau Personol a/neu Sy'n Rhagfarnu**

   Fe wnaeth yr Aelodau ddatgan buddiant mewn perthynas â'u haelodaeth o'u Hawdurdodau Cyfansoddol.

3. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd / Materion Personol**

   Dim.

4. **Eithrio'r Cyhoedd**

   Penderfynodd yr Aelodau i eithrio'r cyhoedd ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei ddatgelu, yn unol â pharagraff 12 o Ran 12(A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5. **Cofnodion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol – 28 Chwefror 2014**

Cymeradwywyd y cofnodion.

6. I gynnal adolygiad diwedd blwyddyn o berfformiad y Prif Swyddog Tân yn 2013/14

6.1 Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor adolygiad y Prif Swyddog Tân ac fe wnaethant gytuno ar y lefelau Adennill a Chyflog Yn Ôl Perfformiad i'w talu mewn perthynas â 2013/14. Byddai'r amcanion ar gyfer 2014/15 yn cael eu gosod ym mis Ebrill 2014.

PENDERFYNIAD

Cytunodd y Pwyllgor ar y lefelau Adennill a Chyflog Yn Ôl Perfformiad i'w talu i'r Prif Swyddog Tân, yn seiliedig ar ei berfformiad yn unol â'i amcanion ar gyfer 2013/14.

7 I ystyried a thrafod y strwythur rheoli, yn cynnwys blaengynllunio.

7.1 Ystyriodd yr Aelodau adroddiad ar y strwythur rheoli a blaengynllunio.

PENDERFYNIAD

Cytunodd y Pwyllgor i argymell bod adroddiad ar y strwythur rheoli a blaengynllunio yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ar y 24ain o Fawrth 2014.

8 Unrhyw eitemau arall o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys yn unol ag Adran 100(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dim.